| **Cyfeirnod:** UHB 484<br>**Rhif y Fersiwn: 3** | **Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:** 01.01.2029<br>**Cyfeirnod Ymddiriedolaeth/Bwrdd Iechyd Lleol Blaenorol:** UHB 484 |
|---|---|

**Fframwaith Llywodraethu Presgripsiynu Annibynnol ac Atodol**

**Datganiad Polisi**

Er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei nodau, ei amcanion, ei gyfrifoldebau a'i ofynion cyfreithiol yn dryloyw ac yn gyson, byddwn yn galluogi Presgripsiynwyr Anfeddygol i weithredu yn unol â safonau proffesiynol, canllawiau cenedlaethol a deddfwriaeth ac yn egluro gofynion llywodraethu'r Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP).

Mae'r fframwaith hwn yn galluogi Presgripsiynwyr Anfeddygol i weithredu yn unol â safonau proffesiynol, canllawiau cenedlaethol a deddfwriaeth, ac yn egluro gofynion llywodraethu'r BIP.

**Ymrwymiad Polisi**

Mae Fframwaith Llywodraethu Presgripsiynu Annibynnol ac Atodol BIP Caerdydd a'r Fro wedi'i ddatblygu i sicrhau bod yr holl arferion presgripsiynu annibynnol / atodol yn cael eu llywodraethu gan y prosesau cadarn sy'n angenrheidiol i ddiogelu cleifion a chefnogi a diogelu Presgripsiynwyr Anfeddygol.

**Gweithdrefnau Ategol a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig**

**Mae dogfennau ategol eraill fel a ganlyn:**

Presgripsiynu Annibynnol ac Atodol yng Nghymru: Canllawiau i gyflogwyr ac ymarferwyr yn GIG Cymru. Llywodraeth Cymru (Ionawr 2024). Presgripsiynu Annibynnol ac Atodol yng Nghymru (llyw.cymru)

Safonau ar gyfer Sicrhau Cymhwysedd Presgripsiynwyr Annibynnol ac Atodol yng Nghymru. Addysg a Gwella Iechyd Cymru (2023). Safonau AaGIC ar gyfer Sicrhau Cymhwysedd Presgripsiynwyr Annibynnol ac Atodol yng Nghymru (gig.cymru)

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth Y Cod. The Code: Professional standards of practice and behaviour for nurses, midwives and nursing associates - Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (nmc.org.uk)

Y Cyngor Proffesiynau Gofal ac Iechyd (HCPC): Safonau Ymddygiad, Perfformiad a Moeseg. Standards of conduct, performance and ethics | (hcpc-uk.org)

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth Gwireddu Proffesiynoldeb: Safonau ar gyfer Addysg a Hyfforddiant. Rhan 3: Safonau ar gyfer Rhaglen Ragnodi. Standards for prescribing programmes - Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (nmc.org.uk)

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol. Safonau ar gyfer Gweithwyr Fferyllol Proffesiynol. Standards you can expect using pharmacy services | Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol. Gofynion addysg a hyfforddiant ar gyfer fferyllwyr-bresgripsiynwyr annibynnol. Standards for the education and training of pharmacist independent prescribers (pharmacyregulation.org)

Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer pob Presgripsiynydd. Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (2021). A Competency Framework for all Prescribers | RPS (rpharms.com)

Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer Ymarferwyr Presgripsiynu Dynodedig. Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (2019). DPP competency framework Dec 2019.pdf (rpharms.com)

Ehangu Cwmpas Ymarfer Presgripsiynu. Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (2022). Expanding Prescribing Scope of Practice (rpharms.com)

Y Canllaw Presgripsiynu Da (BIP Caerdydd a'r Fro). Good Prescribing Guide (microguide.global)

Polisi Cymru Gyfan ar Weinyddu, Cofnodi, Adolygu, Storio a Gwaredu Meddyginiaethau. Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru (2024). Gweinyddu, cofnodi, adolygu, storio a gwaredu meddyginiaethau - Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (gig.cymru)

Cod Meddyginiaethau BIP Caerdydd a'r Fro. Mynediad trwy: Adnoddau Rheoli Meddyginiaethau (sharepoint.com)

Gwasanaeth Presgripsiynu Annibynnol Fferyllydd GIG Cymru: Trefniadau llywodraethu. nwssp.nhs.wales/ourservices/primary-care-services/primary-care-services-documents/ccps-documents/pharmacy-ip-services/pips-governance-arrangements/


**Cwmpas**

Mae'r fframwaith yn berthnasol i'r canlynol:

- Pob presgripsiynydd annibynnol ac atodol a gyflogir gan y BIP sy'n gweithio ym mhob lleoliad gofal o fewn y BIP a'u rheolwyr llinell.
- Presgripsiynwyr annibynnol ac atodol a gyflogir gan sefydliadau / contractwyr annibynnol sydd wedi'u comisiynu i ddarparu gwasanaethau i'r BIP, heblaw am fferyllwyr-bresgripsiynwyr annibynnol mewn fferyllfeydd yn y gymuned (gweler isod).

Nid yw'r fframwaith yn cwmpasu:

- Presgripsiynu nad yw'n rhan o'r GIG gan gontractwyr annibynnol e.e. presgripsiwn preifat a ddarperir mewn clinig preifat a gynhelir gan fferyllydd cymunedol.
- Fferyllwyr sy'n darparu Gwasanaeth Presgripsiynu Annibynnol Fferyllfeydd y GIG mewn Fferyllfa Gymunedol yng Nghymru (er y gallai'r BIP fonitro eu harferion presgripsiynu a darparu cymorth proffesiynol lle bo'n briodol, bydd y fferyllwyr cymunedol hyn yn cael eu llywodraethu gan 'Wasanaeth Presgripsiynu Annibynnol Fferyllfeydd GIG Cymru': Trefniadau Llywodraethu').
- Dulliau eraill o ddarparu meddyginiaethau i gleifion, fel Cyfarwyddiadau Grŵp Cleifion (PGD); Cyfarwyddiadau Penodol i Gleifion (PSD); neu ragnodi sylweddau ffiniol mewn gofal eilaidd gan ddeietegwyr a therapyddion iaith a lleferydd.

Mae'r fframwaith yn berthnasol i dri chategori o bresgripsiynwyr:

**Presgripsiynwyr Annibynnol:**
Fe'u diffinnir yn Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain (BNF) fel "Ymarferwyr sy'n gyfrifol ac yn atebol am asesu cleifion sydd â chyflyrau y gwnaed neu na wnaed diagnosis ohonynt o'r blaen, ac am benderfyniadau ynglŷn â'r rheolaeth glinigol sy'n ofynnol, gan gynnwys presgripsiynu".
Mae'n rhaid i bresgripsiynwyr annibynnol weithio o fewn eu lefel cymhwysedd ac arbenigedd proffesiynol eu hunain ac maen nhw'n atebol am eu gweithredoedd eu hunain. Ar yr adeg ysgrifennu (gwiriwch eBNF am y wybodaeth ddiweddaraf), caiff yr ymarferwyr canlynol hyfforddi i gael eu cofrestru'n bresgripsiynwyr annibynnol:

| | | |
|---|---|---|
| Nyrsys | Bydwragedd | Fferyllwyr |
| Ffisiotherapyddion | Podiatryddion | Optometryddion |
| Radiograffwyr therapiwtig | Parafeddygon | |

**Presgripsiynwyr Atodol:**
Diffinnir Presgripsiynu Atodol yn y BNF fel "partneriaeth rhwng presgripsiynydd annibynnol (meddyg neu ddeintydd) a phresgripsiynydd atodol i weithredu Cynllun Rheoli Clinigol y cytunwyd arno ar gyfer claf unigol gyda chytundeb y claf hwnnw".
Dim ond mewn partneriaeth â meddyg neu ddeintydd y gall presgripsiynwyr atodol bresgripsiynu. O hyn ymlaen, yr unig ddisgyblaethau a fydd yn hyfforddi fel presgripsiynwyr atodol fydd deietegwyr a radiograffwyr diagnostig. Caiff yr ymarferwyr cofrestredig canlynol sydd wedi hyfforddi o'r blaen fel presgripsiynwyr atodol ac sydd â chofrestriad cyfredol gyda'u corff rheoleiddio sy'n adlewyrchu hyn, barhau yn y rôl hon os oes ganddynt ddatganiad cwmpas ymarfer cyfredol ac os ydynt ar Gofrestr Presgripsiynwyr Anfeddygol y BIP:

| | | |
|---|---|---|
| Nyrsys | Bydwragedd | Fferyllwyr |
| Ffisiotherapyddion | Podiatryddion | Optometryddion |
| Radiograffwyr Therapiwtig/Diagnostig | Parafeddygon | Deietegwyr |

Sylwer: yr unig ffordd y gall deietegydd neu radiograffydd diagnostig hyfforddi fel presgripsiynydd atodol yw trwy gwblhau'r cwrs presgripsiynu annibynnol llawn. Bydd arweinydd y cwrs yn darparu gwybodaeth benodol ynglŷn â rôl a chylch gwaith y presgripsiynydd atodol.

**Nyrsys Cymunedol sy'n Bresgripsiynwyr Annibynnol:**
Mae'n rhaid i nyrsys cofrestredig gwblhau'r rhaglen v100 neu v150 i gofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) fel Nyrsys Cymunedol sy'n Bresgripsiynwyr Annibynnol. Bydd Nyrs Gymunedol sy'n Bresgripsiynydd Annibynnol yn presgripsiynu o'r Llyfr Fformiwlâu Nyrs-Bresgripsiynwyr (NPF) ar gyfer Ymarferwyr Cymunedol yn unig. (Gweler Darparu Presgripsiynau Annibynnol ac Atodol yng Nghymru (llyw.cymru) i gael rhagor o wybodaeth am y categori hwn o bresgripsiynwyr).

| | |
|---|---|
| **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd**<br><br>Rhan 1 - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a chanfuwyd nad oedd unrhyw effaith. |

| | |
|---|---|
| **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd**<br><br>Rhan 2 - Asesiad o'r Effaith ar Iechyd | Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a chanfuwyd nad oedd unrhyw effaith. |
| **Cymeradwywyd y polisi gan** | Tîm Arweinyddiaeth Strategol BIPCF (Hydref 2025) / Pwyllgor Ansawdd (Ionawr 2026) |

| | |
|---|---|
| **Cyfarwyddwr Gweithredol neu Gyfarwyddwr Bwrdd Clinigol Atebol** | **Swyddogion Atebol Arweiniol sy'n Benodol i'r Proffesiwn:**<br>Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol<br>Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau<br><br>Gydag atebolrwydd cyffredinol wedi'i ddirprwyo i'r grŵp a restrir isod:<br>Fferylliaeth: Cyfarwyddwr Fferylliaeth<br>Nyrsio a Bydwreigiaeth: Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio<br>Therapïau a Gwyddor Iechyd: Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd |
| **Awdur(on)** | Grŵp Llywodraethu Presgripsiynu Anfeddygol |

**Ymwadiad**

**Os yw dyddiad adolygu'r ddogfen hon wedi mynd heibio, sicrhewch mai'r fersiwn rydych yn ei defnyddio yw'r fersiwn fwyaf cyfredol, naill ai drwy gysylltu ag awdur y ddogf neu'r Gyfarwyddiaeth Lywodraethu.**

| Crynodeb o adolygiadau/diwygiadau | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif Fersiwn** | **Dyddiad yr Adolygiad a Gymeradwywyd** | **Dyddiad Cyhoeddi** | **Crynodeb o'r Diwygiadau** |
| 3 | *20.01.2026* | *01.02.2026* | *Dogfen ddiwygiedig.*<br>*Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd wedi'i gynhyrchu.*<br>*Adran 1 y Fframwaith Llywodraethu: Strwythur Llywodraethu'r BIP – adran newydd wedi'i hychwanegu.*<br>*Adran 2 y Fframwaith Llywodraethu:*<br>• *Mae Proses y BIP wedi'i rhannu'n 2.2 Proses Addysg y BIP a 2.3 Rheoli Presgripsiynwyr Anfeddygol ar ôl cwblhau hyfforddiant.*<br>• *Mwy o fanylion wedi'u hychwanegu at adran 2.3.*<br>• *Adran 2.4: Presgripsiynwyr sefydledig yn ymuno â'r BIP – adran newydd wedi'i hychwanegu.* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • *Adran 2.5: Llywodraethu presgripsiynwyr anfeddygol yn barhaus ac arfarnu presgripsiynu – cynnwys wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu Safonau newydd AaGIC ar gyfer Sicrhau Cymhwysedd (a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru).*<br>*<u>Atodiad 1</u>: Adran I – ychwanegu 'arddangos cymhwysedd parhaus i bresgripsiynu'.*<br>*<u>Atodiad 2</u>:*<br>• *cyfnod cofrestru gyda'r corff rheoleiddio – cwestiwn wedi'i ddiwygio o ganlyniad i newidiadau i reoliadau fferylliaeth.*<br>• *Terminoleg wedi'i diweddaru ar gyfer gwahanol rolau (Ymarferydd Presgripsiynu Dynodedig (DPP) ac ati).*<br><br>*<u>Atodiad 3</u>:*<br>• *Diweddarwyd y cynnwys a'r teitl fel y gellir cymhwyso'r llwybr ymsefydlu i bresgripsiynwyr anfeddygol sydd newydd gymhwyso a'i fod hefyd yn berthnasol i bresgripsiynwyr anfeddygol cymwys sy'n ymuno â'r BIP.*<br>• *Diwygiadau wedi'u gwneud i Gam 1, Cam 3, Cam 7 a Cham 8.*<br>*<u>Atodiad 4</u>:*<br>• *Nodiadau cwblhau: ychwanegwyd 'ehangu cwmpas ymarfer' at y meini prawf ar gyfer cyflwyno datganiad cwmpas ymarfer wedi'i ddiweddaru.*<br>• *Nodiadau cwblhau: ychwanegwyd 'bydd llofnodion gwlyb neu drywyddau e-bost wedi'u gwirio yn cael eu derbyn'.*<br>• *Nodiadau cwblhau: ychwanegwyd bod angen i bresgripsiynwyr anfeddygol 'ddarparu datganiad blynyddol o gymhwysedd parhaus i bresgripsiynu a thystiolaeth eu bod wedi cael asesiad presgripsiynu bob 3 blynedd'.*<br>• *Nodiadau cwblhau: ychwanegwyd eglurhad ynghylch cymeradwyaeth rheolwr llinell ar gyfer presgripsiynwyr anfeddygol sy'n hunangyflogedig ac yn darparu gwasanaethau wedi'u comisiynu.*<br>• *Manylion presgripsiynydd: ychwanegwyd 'wedi'i ddilysu gan Reolwr Llinell' at gofrestru fel presgripsiynydd gyda chorff rheoleiddio.* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • *Manylion y presgripsiynydd: ychwanegwyd 'os yw'n berthnasol' at y Gyfarwyddiaeth a'r Bwrdd Clinigol*<br>• *Manylion y presgripsiynydd: diwygiwyd 'adran/maes clinigol' i gynnwys mwy o opsiynau.*<br>• *Cymhwyster presgripsiynydd anfeddygol: ychwanegwyd adran er mwyn i'r Rheolwr Llinell gadarnhau bod y cymhwyster yn bodloni gofynion y BIP.*<br>• *Cwmpas yr Ymarfer: Maes ymarfer – ychwanegwyd 'er mwyn disgrifio'ch rôl presgripsiynu'n gywir ac yn llawn'.*<br>• *Presgripsiynu ar gyfer cleifion mewnol – eglurwyd bod hyn yn cynnwys 'pob math o bresgripsiynu electronig'.*<br>• *Goruchwyliaeth ôl-gymhwyso – ychwanegwyd 'Teitl Swydd/Cymhwyster' a 'derbynnir trywydd e-bost yn lle llofnod gwlyb'.*<br>• *Awdurdodiad: ychwanegwyd 'lle bo'r angen, derbynnir trywydd(au) e-bost...'.*<br>• *Awdurdodiad: datganiad estynedig ynghylch cyfrifoldebau presgripsiynwyr i gynnwys sicrhau bod gofynion BIP/LIC yn cael eu bodloni, a bod 'datganiad blynyddol o gymhwysedd parhaus i bresgripsiynu yn cael ei gyflwyno i'r Fferyllfa a bod arfarniad presgripsiynu yn cael ei gynnal bob 3 blynedd'.*<br>• *Awdurdodiad: datganiad Rheolwr Llinell – wedi'i ddiwygio i ychwanegu 'presgripsiynu' a rhoi 'rheoleiddiol' yn lle 'proffesiynol', a chynnwys datganiad sicrwydd ychwanegol ynglŷn â chwmpas ymarfer a goruchwyliaeth ôl-gymhwyso.*<br>• *Adran weinyddol wedi'i dileu.*<br>*<u>Atodiad 5</u>:*<br>• *Teitl wedi'i newid i 'Datganiad Blynyddol o Gymhwysedd i Bresgripsiynu'.*<br>• *Fformat wedi'i ddiweddaru i 6 adran wahanol.*<br>• *Paragraff cyflwyniadol wedi'i ddiwygio i adlewyrchu cydymffurfedd â gofynion LIC ar gyfer pob presgripsiynydd anfeddygol.*<br>• *Adran 1 - 'os yw'r presgripsiynydd anfeddygol yn cael ei gyflogi gan y BIP' wedi'i ychwanegu lle bo'n briodol.* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • *Adran 1 - 'neu Faes Clinigol' wedi'i ychwanegu.*<br>• *Adran 1 – gofyniad ychwanegol i nodi swydd/cymhwysedd yr unigolyn sy'n darparu goruchwyliaeth ôl-gymhwyso.*<br>• *Adran 1 – adran ddiwygiedig sy'n cadarnhau bod cwmpas yr ymarfer yn gyfredol ac wedi'i hychwanegu at y datganiad yn Adran 5.*<br>• *Adran 2 – Adolygu ymarfer presgripsiynu – cynnwys yr adran hon wedi'i ddiwygio.*<br>• *Adran 3: Gofynion tystiolaeth wedi'u diweddaru i adlewyrchu safonau AaGIC ar gyfer sicrhau cymhwysedd.*<br>• *Adran 4: Arfarniad Presgripsiynu - cynnwys newydd – adran wedi'i hychwanegu i adlewyrchu safonau AaGIC ar gyfer sicrhau cymhwysedd presgripsiynwyr anfeddygol.*<br>• *Adran 5: Datganiad y presgripsiynydd – cynnwys wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu safonau AaGIC ar gyfer sicrhau cymhwysedd presgripsiynwyr anfeddygol.*<br>• *Adran 6: ychwanegwyd 'datganiadau'.*<br>• *Adran 6: eglurhad ychwanegol ar gyfer presgripsiynwyr anfeddygol nad ydynt yn cael eu cyflogi gan y BIP a phresgripsiynwyr anfeddygol hunangyflogedig.* |

## Fframwaith Llywodraethu Presgripsiynu Annibynnol ac Atodol

## Adran 1: Strwythur Llywodraethu'r BIP

Datblygwyd y seilwaith canlynol i allu llywodraethu addysg ac ymarfer presgripsiynu anfeddygol mewn ffordd gadarn.

| **Swyddog Atebol Arweiniol sy'n Benodol i'r Proffesiwn** | |
|---|---|
| Dyma'r arweinwyr proffesiynol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y Fframwaith Llywodraethu Presgripsiynu Annibynnol ac Atodol hwn yn cael ei weithredu ar draws eu proffesiynau o fewn cwmpas y fframwaith, a bod prosesau ar waith i alluogi cydymffurfio â'r fframwaith. | |
| **Fferylliaeth** | Cyfarwyddwr Fferylliaeth |
| **Nyrsio a Bydwreigiaeth** | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio |
| **Therapïau a Gwyddor Iechyd** | Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd |
| **Optometreg** | Cynghorydd Optometreg |
| **Grŵp Llywodraethu Presgripsiynu Anfeddygol** | |
| Mae'r grŵp hwn yn gyfrifol ac yn atebol am lywodraethu presgripsiynu anfeddygol a datblygu presgripsiynwyr anfeddygol sy'n darparu gwasanaethau o fewn y BIP / i'r BIP. Mae'r grŵp yn darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer presgripsiynu anfeddygol ac yn cynnal adolygiad blynyddol o'r fframwaith llywodraethu hwn ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol.<br>Aelodau'r grŵp:<br>▪ Cyfarwyddwr Fferylliaeth<br>▪ Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio<br>▪ Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd neu ddirprwy enwebedig<br>▪ Cynghorydd Optometreg<br>▪ Prif Fferyllydd ar gyfer Hyfforddiant a Datblygu'r Gweithlu<br>▪ Cynghorydd Nyrsio ar gyfer Rheoli Meddyginiaethau<br>▪ Cynrychiolydd Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolraddol (PCIC)<br>▪ Cynrychiolydd/Cynrychiolwyr Addysg, Diwylliant a Datblygu Sefydliadol (ECOD) | |

| Uwch Swyddogion Atebol |
|---|
| Mae'r Uwch Swyddogion Atebol yn gyfrifol am lywodraethu presgripsiynu anfeddygol o fewn eu bwrdd clinigol/cyfarwyddiaeth/adran. Mae'n ofynnol iddynt gymeradwyo enwebiadau ar gyfer hyfforddiant presgripsiynu anfeddygol a sicrhau bod y fframwaith llywodraethu wedi'i wreiddio'n llawn yn eu meysydd cyfrifoldeb gweithredol a phroffesiynol.<br><br>Sef:<br>▪ Cyfarwyddwyr Nyrsio<br>▪ Penaethiaid Therapïau<br>▪ Prif Fferyllydd ar gyfer Hyfforddiant a Datblygu'r Gweithlu<br>▪ Fferyllwyr Arweiniol y Bwrdd Clinigol |
| **Swyddogion Atebol** |
| Dyma arweinwyr gweithredol sy'n atebol am lywodraethu presgripsiynu anfeddygol o fewn eu gwasanaeth. Byddant yn sicrhau bod presgripsiynwyr anfeddygol newydd yn cael eu datblygu i ymateb i anghenion y gwasanaeth yn hytrach nag anghenion datblygu unigol. Mae'r swyddogion atebol yn gyfrifol am sicrhau bod eu gwasanaethau'n cydymffurfio â'r fframwaith llywodraethu.<br>▪ Nyrs Arweiniol<br>▪ Fferyllwyr Arweiniol neu rôl uwch arall a enwebwyd gan yr Uwch Swyddog(ion) Atebol<br>▪ Arweinydd clinigol dynodedig o fewn therapïau a enwebwyd gan yr Uwch Swyddog Atebol |
| **Rheolwr Llinell/Swyddogion Enwebu** |
| Mae rheolwyr llinell (neu arweinwyr clinigol) presgripsiynwyr anfeddygol yn gyfrifol am sicrhau bod y fframwaith llywodraethu hwn wedi'i wreiddio yn eu tîm a bod eu staff yn glynu wrth y fframwaith.<br><br>Mae swyddogion enwebu yn rhoi cyngor addysgol i ddarpar bresgripsiynwyr anfeddygol dan hyfforddiant ac yn eu henwebu trwy'r broses dadansoddi anghenion hyfforddi flynyddol e.e. Nyrsys Datblygu Ymarfer/Addysgwyr Ymarfer/Rheolwyr Llinell Therapi.<br><br>Mae swyddogion enwebu'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn gwbl gyfarwydd â'r fframwaith a bod yr holl gyngor addysgol yn cyd-fynd â'r gofynion ynddo. |
| **Presgripsiynwyr Annibynnol ac Atodol (Presgripsiynwyr Anfeddygol)** |
| Mae presgripsiynwyr anfeddygol yn gyfrifol am sicrhau bod eu hymarfer presgripsiynu anfeddygol yn cyd-fynd â'r fframwaith hwn a'u bod yn cydymffurfio â'r prosesau a'r gweithdrefnau ynddo. |

Bydd yn ofynnol i swyddogion ar bob lefel fynychu a/neu gwblhau hyfforddiant llywodraethu presgripsiynu anfeddygol ar lefel sy'n briodol i'w rôl.

## Adran 2: Dewis, Hyfforddi a Rheoli Presgripsiynwyr Anfeddygol

### 2.1 Y Cynllun Tymor Canolig Integredig Blynyddol a'r Broses Gomisiynu Addysgol o fewn y sector a reolir

Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn cynnal adolygiad blynyddol o Gynllun Tymor Canolig Integredig y BIP ac yn mynnu bod y BIP yn cwblhau Profforma Comisiynu'r Gweithlu ar ddiwedd pob blwyddyn galendr.
Mae'r broses gomisiynu'n cael ei chydlynu gan y Tîm Gwybodaeth am y Gweithlu ac mae'n cyd-fynd â'r broses Dadansoddi Anghenion Hyfforddi (TNA) flynyddol. Mae'r broses hon yn galluogi'r BIP i gael at leoedd presgripsiynu anfeddygol a ariennir gan AaGIC i ddatblygu presgripsiynwyr newydd. Mae'n rhaid i enwebiadau ar gyfer hyfforddiant gyd-fynd ag anghenion cleifion, datblygiadau gwasanaeth a blaenoriaethau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Crynhoir y broses gomisiynu isod:

**Angen cleifion a gwasanaethau am bresgripsiynu anfeddygol wedi'i nodi (yn unol â Chynllun Tymor Canolig Integredig y BIP)**

↓

**Lleoedd hyfforddi'n cael eu comisiynu gan y Pennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr Nyrsio trwy broses comisiynu'r gweithlu AaGIC (yn gysylltiedig â Chynllun Tymor Canolig Integredig y BIP)**

↓

**AaGIC yn cadarnhau nifer y lleoedd hyfforddi a ariennir ar gyfer y BIP – fel arfer ar ddechrau pob blwyddyn ariannol, erbyn mis Mai fan bellaf**

### 2.2 Proses Addysg y BIP

Mae'r broses hon yn cael ei chynnal ar y cyd â phroses gomisiynu AaGIC ac yn ei llywio. Sylwer bod ***rhaid*** dilyn y broses hon hyd yn oed os yw unigolion wedi sicrhau ffynonellau cyllid eraill e.e. hunan-gyllido, grantiau addysgol, gwaddol neu gyllid cyfarwyddiaeth.

Mae'n rhaid ymgymryd â rhaglenni addysg presgripsiynu anfeddygol mewn sefydliad addysg uwch lle mae gan y BIP berthynas sefydledig sy'n cefnogi glynu wrth y broses lywodraethu hon. Mae Tabl 2.2.1 isod yn amlinellu proses addysg y BIP.

Mae'n hanfodol bod presgripsiynwyr anfeddygol dan hyfforddiant yn cael eu goruchwylio'n ofalus yn ystod y rhaglen presgripsiynu anfeddygol ac ar ôl cymhwyso.

Tabl 2.2.1: Proses Addysg y BIP (nid yw'n berthnasol i wasanaethau contractwyr annibynnol)

| | |
|---|---|
| a. | Mae angen y gwasanaeth i ddatblygu presgripsiynwyr anfeddygol yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig. |
| b. | Amlygir enwebeion ar gyfer y rhaglen presgripsiynu anfeddygol trwy'r broses dadansoddi |

| | |
|---|---|
| | anghenion hyfforddi flynyddol. Mae'r rheolwr llinell yn gwirio bod yr unigolyn yn bodloni meini prawf cymhwysedd y BIP (atodiad I).<br><br>Anfonir enwebiadau Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd at yr Uwch Nyrs ar gyfer Addysg Nyrsio mewn Addysg, Diwylliant a Datblygu Sefydliadol (ECOD) trwy'r broses dadansoddi anghenion hyfforddi flynyddol. Anfonir enwebiadau fferyllfa at y Prif Fferyllydd ar gyfer Hyfforddiant a Datblygu'r Gweithlu neu’r Fferyllydd Arweiniol Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolraddol. |
| c. | Mae'n ofynnol i enwebeion Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd lenwi ffurflen enwebu (atodiad 2) ac fe'u gwahoddir i fynychu cyfarfod gyda Phanel Presgripsiynu Anfeddygol er mwyn adolygu eu ffurflen enwebu a chadarnhau a ydynt yn addas i ymgymryd â'r Rhaglen. Bydd y panel hwn yn cynnwys yr Uwch Reolwr ECOD ar gyfer Addysg Nyrsio a Bydwreigiaeth, y Cynghorydd Nyrsio ar gyfer Rheoli Meddyginiaethau a chynrychiolaeth o'r sefydliad addysg uwch (arweinydd y rhaglen Presgripsiynu Annibynnol). Caiff enwebiadau fferyllfa gofal eilaidd eu hadolygu gan y Prif Fferyllydd a fydd yn cysylltu â Thîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth Fferylliaeth. |
| d. | Ar gyfer Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, anfonir rhestr o ymgeiswyr addas at y Cyfarwyddwr Nyrsio/Pennaeth Gwasanaeth a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol/Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau/Cyfarwyddwr i'w chymeradwyo. Ar gyfer Fferylliaeth, cymeradwyir enwebiadau gan Dîm Rheoli’r Gyfarwyddiaeth Fferylliaeth. |
| e. | Hysbysir AaGIC am enwebiadau’r BIP a gymeradwywyd trwy gwblhau SharePoint AaGIC gan dîm ECOD (Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd) neu'r Prif Fferyllydd (Fferylliaeth). |
| f. | Bydd ECOD yn hysbysu'r Pennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr Nyrsio a'r Nyrs Arweiniol/Rheolwr Llinell Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd am ganlyniad cyllido AaGIC ac yn darparu llythyrau cyllido a gwybodaeth cyn y cwrs i bob enwebai llwyddiannus, gan gynnwys manylion ymgeisio am y cwrs. Bydd y Prif Fferyllydd ar gyfer Hyfforddiant a Datblygu'r Gweithlu yn rheoli'r broses hon ar gyfer Fferylliaeth. |
| g. | Bydd y Pennaeth Gwasanaeth/Nyrs Arweiniol yn sicrhau bod presgripsiynwyr anfeddygol dan hyfforddiant yn cael eu cefnogi a'u goruchwylio'n ofalus gan Ymarferydd Presgripsiynu Dynodedig (DPP) drwy gydol y rhaglen hyfforddi. Bydd y presgripsiynydd anfeddygol dan hyfforddiant yn cymryd cyfrifoldeb personol am sicrhau bod y gwaith astudio a datblygu angenrheidiol yn cael ei gwblhau. Bydd yn ofynnol i nyrsys gael cymorth Asesydd Ymarfer (Meddyg) a Goruchwyliwr Ymarfer (presgripsiynydd annibynnol sydd â dros 3 blynedd o brofiad presgripsiynu ar ôl cymhwyso). |

## 2.3 Rheoli presgripsiynwyr anfeddygol ar ôl cwblhau hyfforddiant

| | |
|---|---|
| a. | Tra byddant yn aros am gadarnhad o gymhwyster a chofrestru fel presgripsiynydd anfeddygol gyda chorff rheoleiddio, bydd rhaid i bresgripsiynwyr anfeddygol newydd ddechrau Llwybr Ymsefydlu’r BIP ar gyfer Presgripsiynwyr Anfeddygol (atodiad 3) a chynnal eu cymhwysedd trwy ymarfer dan oruchwyliaeth parhaus gyda phresgripsiynydd profiadol (sydd â dros 3 blynedd o brofiad presgripsiynu). Bydd hyn yn eu helpu i gynnal eu hyder a'u cymhwysedd tra |

| | |
|---|---|
| | bod y prosesau cofrestru ac ymsefydlu angenrheidiol yn cael eu cwblhau. |
| b. | Unwaith y derbynnir cadarnhad o gymhwyster gan y Brifysgol, bydd rhaid i'r presgripsiynydd anfeddygol gwblhau pob cam o'r llwybr ymsefydlu presgripsiynydd anfeddygol (atodiad 3) i sicrhau bod y prosesau cofrestru ac ymsefydlu cywir yn cael eu dilyn, gan gynnwys cofrestru Cwmpas Ymarfer (atodiad 4) gyda Chofrestr Presgripsiynwyr Anfeddygol y BIP (a gynhelir gan y Fferylliaeth ar ran y BIP). |
| c. | Er mwyn cydymffurfio â safonau Llywodraeth Cymru/AaGIC, bydd rhaid i bresgripsiynwyr anfeddygol sicrhau eu bod yn bodloni gofynion blynyddol y BIP ar gyfer tystiolaeth o gymhwysedd parhaus i bresgripsiynu (gweler atodiad 5). Mae hyn yn cynnwys hunanasesiad blynyddol a gweithgareddau DPP (datblygiad proffesiynol parhaus) perthnasol. Ar gyfer presgripsiynwyr anfeddygol sy'n cael eu cyflogi gan y BIP, bydd rhaid i Benaethiaid Gwasanaeth/Nyrsys Arweiniol sicrhau bod presgripsiynwyr anfeddygol yn cael eu cefnogi i alluogi'r gweithgareddau DPP hyn i ddigwydd. |
| d. | Mae'n rhaid i bob presgripsiynydd anfeddygol gael unigolyn â chymwysterau addas wedi'i nodi a'i enwi ar eu Cwmpas Ymarfer (atodiad 4) a all gynnal arfarniad presgripsiynu bob tair blynedd. Bydd hyn yn arfarniad adeiladol o ymarfer presgripsiynu fel yr amlinellir yn Safonau AaGIC ar gyfer Sicrhau Cymhwysedd Presgripsiynwyr Annibynnol ac Atodol yng Nghymru (gig.cymru). Mae'r rheolwr llinell yn gyfrifol am sicrhau bod unigolyn â chymwysterau a phrofiad addas wedi'i nodi, ac fe allai hwn fod y rheolwr llinell (os yw hefyd yn bresgripsiynydd anfeddygol), mentor, ymgynghorydd, meddyg teulu neu ymarferydd presgripsiynu dynodedig. Bydd dyddiad yr arfarniad presgripsiynu diweddaraf wedi'i gynnwys ar y ffurflen Datganiad Presgripsiynu Anfeddygol flynyddol (atodiad 5) ac mae'n rhaid i'r arfarniad hwn fod o fewn y 3 blynedd diwethaf bob amser. |
| e. | Mae'n rhaid i bob presgripsiynydd anfeddygol wneud datganiad blynyddol o'u cymhwysedd parhaus i bresgripsiynu, a datganiad o gwmpas eu hymarfer presgripsiynu (ar gyfer presgripsiynwyr anfeddygol a gyflogir gan y BIP, fe ddylai hyn fod yn rhan o broses arfarnu flynyddol wedi'i seilio ar werthoedd (VBA) y BIP). Bydd hyn yn cynnwys:<br>• datganiad proffesiynol a wneir yn flynyddol eu bod wedi cynnal hunanasesiad o'u cymhwysedd presgripsiynu gan ddefnyddio Fframwaith Cymhwysedd yr RPS ar gyfer Pob Presgripsiynydd, a bod ganddynt dystiolaeth o hyn yn unol â'r gofynion a nodir yn Atodiad 5 Fframwaith Llywodraethu Presgripsiynu Anfeddygol y BIP<br>• Datganiad proffesiynol a wneir yn flynyddol eu bod wedi cael arfarniad presgripsiynu gydag unigolyn â chymwysterau addas o fewn y 3 blynedd diwethaf ac sy'n nodi dyddiad yr arfarniad presgripsiynu diweddaraf.<br>• Datganiad proffesiynol a wneir yn flynyddol bod copi cyfredol o'u cwmpas ymarfer presgripsiynu wedi'i gyflwyno i'r Fferyllfa o fewn y 3 blynedd diwethaf (o leiaf) a bod hyn yn adlewyrchu eu rôl bresennol a'u maes presgripsiynu clinigol yn gywir.<br>• Bydd statws presgripsiynwyr anfeddygol nad ydynt yn cyflwyno datganiad blynyddol ar Gofrestr Presgripsiynwyr Anfeddygol y BIP yn cael ei newid i "ddim yn presgripsiynu'n weithredol" ac ni fyddant bellach yn gymwys i bresgripsiynu yn eu rôl bresennol. |

| | |
|---|---|
| f. | **Cwmpas yr Ymarfer:** Rhaid cyflwyno Cwmpas Ymarfer wedi'i ddiweddaru (atodiad 4) i'r Fferyllfa bob 3 blynedd. Os nad oes unrhyw newidiadau i gynnwys y Cwmpas, gellir argraffu copi newydd a'i ail-lofnodi gan y presgripsiynydd anfeddygol a'i awdurdodi gan yr holl lofnodwyr priodol.<br>Yn ogystal, mae’n rhaid i bresgripsiynwyr anfeddygol gyflwyno cwmpas wedi'i ddiweddaru os bydd unrhyw elfen o'u cwmpas yn newid neu'n ehangu cyn gynted ag y byddant wedi sicrhau bod unrhyw anghenion addysgol wedi'u diwallu a bod pob adran o'r cwmpas wedi'i ddiweddaru wedi cael ei chwblhau a'i hawdurdodi gan y llofnodwyr priodol. Mae’r BIP yn mynnu bod pob presgripsiynydd anfeddygol yn dilyn Canllawiau Proffesiynol y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS): Ehangu Cwmpas Ymarfer Presgripsiynu pryd bynnag y byddant yn ceisio newid / ehangu eu cwmpas ymarfer: Expanding Prescribing Scope of Practice (rpharms.com).<br>Rhaid i bresgripsiynwyr anfeddygol sy'n cael eu hadleoli dros dro i faes arall neu sy'n dechrau rôl bresgripsiynu newydd yn y BIP/ar gyfer y BIP naill ai o fewn eu harbenigedd arferol neu ar gyfer grŵp cleifion / maes arbenigol newydd ddilyn y canllawiau proffesiynol hyn gan yr RPS (dolen uchod) hefyd. Yna, rhaid cyflwyno Cwmpas Ymarfer newydd ar ôl i'r holl weithgareddau dysgu a nodwyd gael eu cynnal, ar ôl i'r cymwyseddau gael eu bodloni ac ar ôl i'r llofnodwyr priodol awdurdodi'r cwmpas ymarfer. |

### 2.4 Presgripsiynwyr sefydledig sy’n ymuno â chofrestr presgripsiynwyr anfeddygol y BIP

Rhaid i unrhyw aelodau staff newydd sy'n ymuno â chofrestr y BIP sydd eisoes yn bresgripsiynwyr anfeddygol cymwys ddilyn y broses berthnasol isod:

#### 2.4.1 Staff parhaol sy'n newydd i'r BIP:

Rhoi copi o'u tystysgrif ar gyfer eu cymhwyster presgripsiynu i’w rheolwr. Os ydynt wedi hyfforddi yng Nghymru, byddant wedi cwblhau rhaglen presgripsiynu anfeddygol lefel 7 40 neu 60 credyd.

Ar gyfer nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd sydd wedi hyfforddi y tu allan i Gymru, rhaid anfon copi o'u tystysgrif at yr Uwch Reolwr ECOD ar gyfer Addysg Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r Cynghorydd Nyrsio ar gyfer Rheoli Meddyginiaethau i'w adolygu. Os nad oes ganddynt dystysgrif ar gael, rhaid iddynt ddarparu cadarnhad trwy eu cofrestriad gyda'r NMC eu bod yn bresgripsiynwyr hyfforddedig i'r bobl uchod i'w adolygu. Os cwblhaodd y presgripsiynydd fodiwl 20 neu 30 credyd yn Lloegr neu raglen lefel 6, bydd angen trawsgrifiad o gynnwys yr hyfforddiant i nodi bylchau mewn gwybodaeth. Er enghraifft: efallai nad oedd y rhaglen yn cynnwys asesiad cyfrifiadau neu asesiad o sgiliau diagnostig. Ar gyfer nyrsys a bydwragedd, bydd yr Uwch Nyrs ar gyfer Addysg Nyrsio yn rhoi cyngor ynglŷn â’r hyfforddiant ychwanegol sydd i'w gwblhau.

Os yw'r hyfforddiant yn bodloni'r safon ofynnol, rhaid i'r aelod staff newydd gyflwyno Cwmpas Ymarfer wedi'i gwblhau i'r Fferyllfa i gofrestru gyda'r BIP cyn ymgymryd ag ymarfer presgripsiynu. Os yw ei swydd newydd yn golygu bod rhaid iddo bresgripsiynu mewn maes arbenigol newydd neu ar gyfer grŵp cleifion newydd, bydd angen iddo ddilyn gofynion y BIP ar gyfer presgripsiynydd anfeddygol sy'n newid / ehangu ei gwmpas ymarfer cyn cyflwyno cwmpas ymarfer sydd wedi'i awdurdodi gan y llofnodwyr priodol (gweler 2.3f uchod) – bydd angen i'r presgripsiynydd anfeddygol allu dangos ei fod wedi dilyn Canllawiau Proffesiynol yr

RPS er mwyn datblygu ei gwmpas ymarfer newydd.

#### 2.4.2 Staff locwm a staff dros dro:

Rhaid i unrhyw bresgripsiynydd anfeddygol cofrestredig sy'n gwneud sifftiau locwm/banc/asiantaeth yng Nghaerdydd a’r Fro mewn rôl briodol, e.e. fferyllydd, ymarferydd nyrsio, gyflwyno cwmpas ymarfer yn y ffordd arferol fel y disgrifir yn Adran 2.3 a gallu dangos ei fod yn cydymffurfio â Safonau AaGIC ar gyfer Sicrhau Cymhwysedd Presgripsiynwyr Annibynnol yng Nghymru.

### 2.5 Llywodraethu parhaus ar gyfer presgripsiynwyr anfeddygol ac arfarnu presgripsiynu (gweler atodiad 5)

Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod y BIP yn cynnal cofnod / cronfa ddata electronig cywir o bob presgripsiynydd anfeddygol. Rhaid i'r cofnod electronig hwn gynnwys y canlynol ar gyfer pob presgripsiynydd anfeddygol:

- cwmpas ymarfer presgripsiynu cyfredol
- datganiad blynyddol o gwmpas ymarfer presgripsiynu
- datganiad blynyddol o gymhwysedd parhaus i bresgripsiynu
- dyddiad yr arfarniad presgripsiynu diweddaraf, y mae'n rhaid iddo fod o fewn y 3 blynedd diwethaf

Mae cronfa ddata electronig presgripsiynwyr anfeddygol y BIP yn cael ei dal a'i chynnal gan y fferyllfa.

Mae presgripsiynwyr anfeddygol cymwys sy'n defnyddio eu cymhwyster presgripsiynu yn cael eu derbyn i’r gronfa ddata trwy gyflwyno ffurflen Cwmpas Ymarfer (atodiad 4) sydd wedi cael ei hadolygu a'i hawdurdodi gan yr holl lofnodwyr priodol. Rhaid cyflwyno ffurflen Cwmpas Ymarfer wedi'i diweddaru bob tair blynedd o leiaf ac os oes newid i unrhyw un o'r elfennau yn y cwmpas (gweler 2.3f uchod).

Os nad yw presgripsiynydd anfeddygol cymwys yn defnyddio ei gymhwyster presgripsiynu yn ei rôl bresennol, cofnodir ei fanylion ar gronfa ddata electronig presgripsiynwyr anfeddygol y BIP fel presgripsiynydd anfeddygol anweithredol a bydd rhaid iddo gyflwyno datganiad blynyddol i gadarnhau hyn (gweler Atodiad 5 (adran 2)).

Mae’r Ffurflen Datganiad Blynyddol Presgripsiynydd Anfeddygol (atodiad 5) yn darparu canllawiau tystiolaeth clir i bresgripsiynwyr a rheolwyr llinell ac mae'n bodloni'r gofynion tystiolaeth lleiaf a bennir gan Lywodraeth Cymru ac AaGIC ar gyfer presgripsiynwyr anfeddygol yng Nghymru.

Rhaid i bob presgripsiynydd anfeddygol sy'n defnyddio ei gymhwyster presgripsiynu gael arfarniad presgripsiynu gydag unigolyn â chymwysterau addas bob 3 blynedd (yn unol â Safonau AaGIC ar gyfer Sicrhau Cymhwysedd Presgripsiynwyr Annibynnol ac Atodol yng Nghymru) - rhaid cofnodi dyddiad yr arfarniad diweddaraf ar ffurflen datganiad blynyddol y presgripsiynydd anfeddygol* (Atodiad 5).

Efallai y bydd amgylchiadau pan fyddai presgripsiynydd anfeddygol yn elwa o gyfnod ychwanegol o ymarfer dan oruchwyliaeth gydag ymarferydd presgripsiynu dynodedig (neu feddyg / presgripsiynydd anfeddygol arall â chymwysterau addas) e.e.:

- Newid i'w rôl sy'n gofyn am newid sylweddol i'r Cwmpas Ymarfer
- Bwlch sylweddol mewn gweithgarwch presgripsiynu (e.e. ≥ 12 mis)
- Pryderon ynghylch cymhwysedd presgripsiynu
- Presgripsiynydd sefydledig yn ymuno â'r BIP – i alluogi ymsefydlu effeithiol i bolisïau, gweithdrefnau, arferion presgripsiynu ac ati'r BIP.

Dylid penderfynu ar hyd a ffurf yr oruchwyliaeth trwy drafodaethau gyda'r Ymarferydd Presgripsiynu Dynodedig (neu feddyg / presgripsiynydd anfeddygol arall â chymwysterau addas), y rheolwr llinell a'r unigolyn – dylai'r trafodaethau hyn fod yn seiliedig ar asesiadau gwrthrychol gan ddefnyddio Fframwaith Cymhwysedd yr RPS ar gyfer pob Presgripsiynydd a Chanllawiau Proffesiynol yr RPS: Ehangu Cwmpas Ymarfer. Dylai'r penderfyniadau sy'n deillio o'r trafodaethau hyn gael eu cofnodi'n briodol ym mhortffolio presgripsiynu'r presgripsiynydd anfeddygol (a'r Ffeil Bersonol lle bo'n briodol) a'u cymeradwyo gan y Nyrs Arweiniol/Pennaeth Adran/Arweinwyr Hyfforddi.

* *Yn ystod camau gweithredu cychwynnol y broses arfarnu 3 blynedd newydd (tan fis Mawrth 2027), bydd presgripsiynwyr anfeddygol yn gallu cwblhau eu 'Datganiad Blynyddol o Gymhwysedd Parhaus i Bresgripsiynu' (Atodiad 5) a nodi nad oes Arfarniad Presgripsiynu llawn wedi'i gwblhau eto sy'n bodloni holl ofynion Safonau Sicrhau Cymhwysedd newydd AaGIC.*

# ATODIAD 1

## BIP Caerdydd a'r Fro: Meini Prawf Cymhwysedd ar gyfer Enwebu Staff i Ymgymryd â Rhaglen Astudio i ddod yn Bresgripsiynydd Anfeddygol

Mae'n rhaid i ddarpar bresgripsiynwyr anfeddygol newydd fodloni'r meini prawf cymhwysedd canlynol:

| | **Adolygwch bob datganiad a thiciwch fel y bo'n briodol** | |
|---|---|---|
| a | Mae'r ymarferydd yn gweithio mewn rôl lle mae'n briodol iddo ymgymryd ag ymarfer presgripsiynu. | |
| b | Mae presgripsiynu'n rhan hanfodol o rôl yr ymarferydd. Mae angen y gwasanaeth a'r budd i gleifion yn glir. | |
| c | Bydd yr ymarferydd yn cael cyfle i weithredu fel presgripsiynydd ar ôl cymhwyso. | |
| d | Mae Ymarferydd Presgripsiynu Dynodedig (DPP) wedi cael ei nodi sy'n feddyg/presgripsiynydd anfeddygol profiadol a bydd yn darparu'r hyfforddiant, y cymorth a'r asesiad ymarfer angenrheidiol yn ystod y Rhaglen Astudio a'r cyfnod ymsefydlu ar ôl cymhwyso. | |
| e | Bydd yr ymarferydd yn cael ei ryddhau i fynychu'r rhaglen hyfforddi ofynnol a goruchwyliaeth gan yr Ymarferydd Presgripsiynu Dynodedig. | |
| f | Bydd yr ymarferydd yn cael ei gefnogi i gael mynediad at gyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus ar ôl cwblhau'r cwrs. | |
| g | Mae'r ymarferydd wedi dangos tystiolaeth o'i allu i ymgymryd ag asesiadau a gwneud penderfyniadau uwch ynghylch cleifion – gellir mynd i'r afael ag unrhyw anghenion dysgu a nodwyd cyn ymgymryd â'r rhaglen bresgripsiynu (neu yn ystod y rhaglen bresgripsiynu). Efallai y bydd angen rhaglen ffurfiol o asesu cleifion. Os yw'n berthnasol, dylid cofnodi anghenion dysgu a nodwyd yn arfarniad blynyddol yr ymarferydd gyda'i reolwr llinell. | |
| h | Mae'r ymarferydd wedi cwblhau gradd gyntaf neu gymhwyster cyfatebol.<br>(Os na, ceisiwch gyngor gan ECOD ynghylch cymwysterau academaidd yr unigolyn gan oherwydd efallai y bydd angen iddo ymgymryd ag astudiaeth academaidd bellach cyn dechrau rhaglen bresgripsiynu) | |
| i | Mae trefniadau ariannol ar waith i dalu am bresgripsiynau (fel y bo'n briodol). | |
| j | Mae'r ymarferydd wedi'i gofrestru gyda'r corff rheoleiddio priodol:<br>• Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC) – rhaid iddo fod yn fferyllydd gweithredol hefyd.<br>• Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC).<br>• Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) – wedi'i gofrestru fel nyrs lefel gyntaf, bydwraig a/neu nyrs iechyd cyhoeddus arbenigol yn y gymuned. | |
| k | Mae'r ymarferydd wedi cwblhau blwyddyn o ymarfer fel ymarferydd cofrestredig (yn syth cyn gwneud cais i'r rhaglen) yn ei faes clinigol (e.e. iechyd meddwl / iechyd oedolion / plant) lle mae bwriad i bresgripsiynu. | |
| l | Mae'r ymarferydd yn gallu dangos sut y bydd yn myfyrio ar ei berfformiad ei hun, yn cymryd cyfrifoldeb am ei ddatblygiad proffesiynol parhaus ac yn datblygu ei rwydweithiau | |

| | | |
|---|---|---|
| | rhyngbroffesiynol ei hun ar gyfer cymorth, myfyrio, dysgu a dangos cymhwysedd parhaus i bresgripsiynu. | |

**ATODIAD 2**

**Ffurflen Enwebu Rhaglen Presgripsiynu Anfeddygol (Annibynnol)**

**Rhaid ei chwblhau'n electronig. Ni dderbynnir ffurflenni wedi'u hysgrifennu â llaw**

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Rôl | |
| Adran/Lleoliad Gwaith | |
| Cyfarwyddiaeth (*os yw'n berthnasol*) | |
| Bwrdd Clinigol | |
| Ydych chi'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd a nodir yn Fframwaith Llywodraethu Presgripsiynu Anfeddygol y BIP? Atodwch gopi o'r rhestr wirio cymhwysedd (Atodiad 1) | |
| Ers faint ydych chi wedi cofrestru gyda'ch corff rheoleiddio? | |
| Amlinellwch yn fyr eich profiad yn y maes ymarfer ar gyfer eich rôl bresgripsiynu arfaethedig. | |
| Enw'r Nyrs Arweiniol, y Pennaeth Gwasanaeth, y Partner Ymarfer sy'n cefnogi'r enwebiad | |
| Ydych chi wedi cwblhau BSc neu gymhwyster cyfatebol?<br><br>**Os ydych:** rhowch deitl y rhaglen a'r dyddiad cwblhau | |
| Ydych chi wedi cwblhau unrhyw addysg ar lefel MSc?<br><br>**Os ydych:** rhowch deitlau'r cyrsiau a'r dyddiadau cwblhau | |
| Ydych chi wedi cwblhau modiwl asesu cleifion clinigol? | |

| | |
|---|---|
| **Os ydych:** rhowch deitlau'r cyrsiau a'r dyddiadau cwblhau | |
| A yw presgripsiynu annibynnol yn ddatblygiad newydd ar gyfer eich rôl? | |
| A yw presgripsiynu annibynnol yn ddatblygiad newydd ar gyfer eich adran? | |
| Y rôl bresgripsiynu arfaethedig<br><br>Gwnewch yn siŵr eich bod yn ateb y cwestiynau canlynol:<br>1. **Math o wasanaeth**<br><br>**Mae hyn yn elfen hanfodol o'r ffurflen felly rhowch gymaint o fanylion â phosibl**<br><br>2. **Grŵp cleifion**<br>**Mae hyn yn elfen hanfodol o'r ffurflen felly rhowch gymaint o fanylion â phosibl**<br><br>3. **Anghenion cleifion**<br><br>**Mae hyn yn elfen hanfodol o'r ffurflen felly rhowch gymaint o fanylion â phosibl**<br><br>4. **Yr ystod o feddyginiaethau y dymunwch eu presgripsiynu**<br><br>**Uchafswm o 2 grŵp o feddyginiaethau (e.e.; Gwrthfiotigau, SSRIs, Broncoledyddion)** | |

| | |
|---|---|
| Amlinellwch anghenion y gwasanaeth sy'n eich cefnogi i ymgymryd â rôl bresgripsiynu | |
| Beth yw'r manteision disgwyliedig i'ch cleifion os byddwch yn dod yn bresgripsiynydd? | |
| Beth yw'r canlyniadau posibl i'ch cleifion neu'ch gwasanaeth os na fyddwch mewn rôl bresgripsiynu? | |
| Ydych chi wedi gwneud cais i ymgymryd â'r rhaglen presgripsiynu annibynnol o'r blaen? (Ydw/Nac ydw)<br><br>Os ydych: pam na wnaethoch chi fwrw ymlaen â'r cwrs? | |
| Ydych chi wedi dechrau cwrs presgripsiynu annibynnol o'r blaen? (Ydw/Nac ydw)<br><br>Os ydych: rhowch fanylion ynghylch:<br><br>1. Ble yr astudioch chi<br>2. Sut y cawsoch eich ariannu<br>3. Y rheswm dros beidio â chwblhau'r rhaglen | |
| Ydych chi'n ymwybodol o'r ymrwymiad amser helaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer y cwrs hwn? | |
| Enw'r Ymarferydd Presgripsiynu Dynodedig (DPP) a'r Goruchwyliwr Ymarfer (PS) / Asesydd Ymarfer (PA)<br><br>**<u>Beth yw Ymarferydd Presgripsiynu Dynodedig a Goruchwyliwr Ymarfer?</u>** | |

| | |
|---|---|
| **Sylwch y bydd arnoch angen 2 unigolyn, ni all 1 unigolyn gyflawni'r ddwy rôl.**<br><br>**Ymarferydd Presgripsiynu Dynodedig - presgripsiynydd profiadol sy'n goruchwylio ac asesu presgripsiynydd anfeddygol dan hyfforddiant yn ystod ei gyfnod dysgu ymarferol. Cyfarfodydd misol a chymeradwyaeth derfynol. (O leiaf 3 blynedd o bresgripsiynu gweithredol)**<br><br>**Goruchwyliwr Ymarfer - presgripsiynydd cymwysedig sy'n cefnogi ac arwain dysgu o ddydd i ddydd presgripsiynydd anfeddygol dan hyfforddiant mewn ymarfer clinigol. (O leiaf 3 blynedd o bresgripsiynu gweithredol)** | |
| Rôl bresennol yr Ymarferydd Presgripsiynu Dynodedig / Goruchwyliwr Ymarfer / Asesydd Ymarfer | |
| A yw’r Ymarferydd Presgripsiynu Dynodedig / Goruchwyliwr Ymarfer / Asesydd Ymarfer wedi goruchwylio myfyriwr trwy'r rhaglen presgripsiynu annibynnol o'r blaen? | |
| A yw'r Ymarferydd Presgripsiynu Dynodedig yn ymwybodol y bydd angen iddo fynychu sesiwn gydag arweinydd cwrs y Brifysgol i drafod ei gyfrifoldebau hyfforddi a goruchwylio? | |
| Pwy fydd yn gyfrifol am eich goruchwyliaeth glinigol ar ôl i chi gymhwyso fel presgripsiynydd annibynnol? | |

| | | |
|---|---|---|
| Enw'r Nyrs Arweiniol/Uwch Nyrs neu’r Pennaeth Gwasanaeth Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd/Partner Ymarfer sy'n cefnogi'r enwebiad | | |
| Llofnod(ion) y Nyrs Arweiniol/Rheolwr Llinell | | Dyddiad |
| Llofnod yr ymarferydd | | Dyddiad |
| Llofnod(ion y Goruchwyliwr Ymarfer / Asesydd Ymarfer | | Dyddiad |
| Llofnod yr Ymarferydd Presgripsiynu Dynodedig | | Dyddiad |

## ATODIAD 3

## Llwybr Ymsefydlu ar gyfer Presgripsiynwyr Anfeddygol

Bwriedir i'r llwybr ymsefydlu hwn gael ei ddefnyddio gan bob Presgripsiynydd Anfeddygol sydd newydd gymhwyso - dylid cychwyn y llwybr cyn gynted ag y bydd presgripsiynydd anfeddygol yn gorffen y rhaglen bresgripsiynu. Ar ôl ei gwblhau, bydd angen lanlwytho copi o'r llwybr hwn i'ch ffeil bersonol.
DS Gellir defnyddio'r llwybr hwn hefyd i gefnogi'r broses o ymsefydlu presgripsiynwyr anfeddygol cymwys sy'n ymuno â'r BIP fel aelod staff newydd / dros dro.

| | |
|---|---|
| Enw'r Presgripsiynydd Anfeddygol: | Teitl swydd: |
| Proffesiwn: | Adran (neu Feddygfa / contractwr annibynnol arall): |
| Cyfarwyddiaeth (*os yw'n berthnasol*): | Bwrdd Clinigol: |
| Dyddiad cwblhau'r rhaglen presgripsiynu anfeddygol: | Dyddiad derbyn canlyniad llwyddo gan y brifysgol: |

**Cam 1: Cynnal eich cymhwysedd:**
Er mwyn cynnal eich cymhwysedd, gwnewch yn siŵr eich bod yn parhau i ymgymryd ag ymarfer presgripsiynu dan oruchwyliaeth gyda'ch Ymarferydd Presgripsiynu Dynodedig (DPP) (neu feddyg / presgripsiynydd anfeddygol arall sydd â chymwysterau addas) ar ôl cwblhau'r rhaglen a pharhau i gynnal eich cofnod presgripsiynu yn eich portffolio wrth wneud hyn. Parhewch â hyn nes i chi gwblhau Camau 2 a 3 o'r llwybr hwn a'ch bod yn gallu presgripsiynu'n annibynnol, ond yna gwnewch yn siŵr eich bod yn cwblhau Cam 7 o'r llwybr ymsefydlu er mwyn cynnal goruchwyliaeth yn eich ymarfer presgripsiynu yn ystod y cyfnod ymsefydlu.

Enw'r Ymarferydd Presgripsiynu Dynodedig / Meddyg / Presgripsiynydd Anfeddygol sy'n goruchwylio ymarfer presgripsiynu yn ystod y cyfnod ymsefydlu ar ôl cymhwyso:

Llofnod:

**Cam 2: Ar ôl derbyn canlyniad llwyddo - cofrestru fel presgripsiynydd gyda'ch Corff Rheoleiddio:**
Cwblhewch y broses gofrestru gyda'r corff rheoleiddio yn unol â'r canllawiau a roddwyd gan y Brifysgol.

| |
|---|
| Dyddiad cyflwyno cais am anodiad ar y gofrestr fel presgripsiynydd: |
| Dyddiad derbyn cadarnhad o gofrestru fel presgripsiynydd: |

**Cam 3: Cofrestru fel presgripsiynydd gyda'r BIP**
Mae Cofrestr Presgripsiynwyr Anfeddygol BIP Caerdydd a'r Fro yn cael ei dal a'i chynnal gan y Fferyllfa ar ran y BIP.

Rhaid i chi fod wedi'ch cofrestru gyda'r BIP er mwyn gallu presgripsiynu o fewn eich rôl; bydd Presgripsiynwyr Anfeddygol yn gymwys i bresgripsiynu (o ran atebolrwydd) dim ond os ydynt ar Gofrestr Presgripsiynwyr Anfeddygol y BIP ac os ydynt wedi cyflwyno Datganiad Cwmpas Ymarfer cyfredol sy'n adlewyrchu eu rôl bresgripsiynu gyfredol yn gywir. Rhaid defnyddio gwaith papur cyfredol y BIP ar gyfer y datganiad cwmpas ymarfer bob amser (Dogfennau Presgripsiynu Anfeddygol SharePoint)

I gofrestru fel presgripsiynydd gyda'r BIP, cwblhewch y camau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cwblhewch bob rhan o'r Datganiad Cwmpas Ymarfer, gan sicrhau ei fod yn disgrifio'n gywir eich rôl bresgripsiynu sydd wedi'i thrafod, ei chytuno, a'i chymeradwyo gan eich rheolwr llinell (Uwch Nyrs/Nyrs Arweiniol neu Bennaeth Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd) | Dyddiad cymeradwyo'r Datganiad Cwmpas Ymarfer gan y rheolwr llinell: |
| 2. | Gwnewch yn siŵr fod y Datganiad Cwmpas Ymarfer wedi cael ei lofnodi gan bob llofnodwr gofynnol arall ac yna bod copi wedi'i gadw yn eich portffolio presgripsiynu a'ch ffeil bersonol. | Dyddiad llofnodi'r Datganiad Cwmpas Ymarfer gan yr holl lofnodwyr gofynnol: |
| 3 | Anfonwch gopi wedi'i sganio o'ch Datganiad Cwmpas Ymarfer wedi'i lofnodi at y Fferyllfa drwy e-bost: nmpadminpharmacy.cav@wales.nhs.uk | Dyddiad anfon copi o'r Datganiad Cwmpas Ymarfer at y fferyllfa: |
| 4 | Pan dderbynnir e-bost cadarnhau gan y Fferyllfa i gadarnhau bod eich Datganiad Cwmpas Ymarfer wedi cael ei dderbyn a bod eich manylion wedi cael eu hychwanegu at Gofrestr Presgripsiynwyr Anfeddygol y BIP – gwnewch yn siŵr fod copi o'r neges e-bost hon yn cael ei gadw. | Dyddiad derbyn cadarnhad bod eich manylion wedi cael eu hychwanegu at Gofrestr Presgripsiynwyr Anfeddygol y BIP: |

**Cam 4: Cofrestru i gael mynediad at Borth Clinigol Cymru (os oes angen mynediad ac nad yw wedi'i awdurdodi eto):**

| | |
|---|---|
| Bydd angen cyfrif NADEX arnoch i gofrestru i gael mynediad at Borth Clinigol Cymru (WCP) – cysylltwch â'ch Rheolwr Llinell os nad oes gennych gyfrif NADEX.<br><br>Pan fydd gennych gyfrif NADEX, cwblhewch 'Hyfforddiant Hanfodol' Porth Clinigol Cymru - y gellir ei gyrchu trwy'r ddolen ganlynol: rwmbvsrvwcpweb1.cymru.nhs.uk/captivate_elearning/ostlts/_wcp/wcp_all_in_one_master/index.html | Dyddiad cofrestru gyda Phorth Clinigol Cymru (*os yw'n berthnasol*): |

**Cam 5: Cofrestru ar gyfer presgripsiynu trwy COPPS**
(DIM OND ar gyfer presgripsiynwyr a fydd yn presgripsiynu mewn lleoliad cleifion allanol)

| | |
|---|---|
| Os ydych yn presgripsiynu mewn lleoliad cleifion allanol, bydd angen i chi gofrestru gyda COPPS trwy'r ddolen ganlynol:<br><br>**Dolen i gofrestru gyda COPPS:**<br><br>Pecyn System Wybodaeth Glinigol (cymru.gig.uk)<br><br>Eglurwch eich bod yn Bresgripsiynydd Anfeddygol wrth gofrestru gyda COPPS. | Dyddiad cofrestru gyda COPPS (*os yw'n berthnasol*): |

**Cam 6: Cofrestru gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Gofal Sylfaenol**
(<u>DIM OND</u> ar gyfer presgripsiynwyr a fydd yn presgripsiynu mewn gofal sylfaenol neu gymunedol)

| | |
|---|---|
| Rhaid i unrhyw bresgripsiynydd anfeddygol y mae arno angen presgripsiynau WP10 y GIG (i'w defnyddio mewn gofal sylfaenol) gofrestru gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Gofal Sylfaenol.<br>Presgripsiynwyr Anfeddygol - Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru | Dyddiad cofrestru gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru<br>(*os yw'n berthnasol*): |

**Cam 7: Cyfnod ymsefydlu: misoedd 1-3 o ymarfer presgripsiynu annibynnol**
Yn ystod y cyfnod hwn, dylai'r Presgripsiynydd Anfeddygol newydd:

| | |
|---|---|
| Mynychu cyfarfod goruchwylio misol gyda'r Ymarferydd Presgripsiynu Dynodedig (neu feddyg/presgripsiynydd anfeddygol arall â chymwysterau addas)<br><br>*Rhowch fanylion yr unigolyn sy'n darparu'r oruchwyliaeth os nad yw'n Ymarferydd Presgripsiynu Dynodedig:* | Dyddiadau'r cyfarfodydd: |
| Cwblhau cofnod gweithgarwch presgripsiynu ar gyfer un mis neu hanner cant o bresgripsiynau / penderfyniadau presgripsiynu, o leiaf.<br><br>Mae 'gweithgarwch presgripsiynu' yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio'r broses o Asesu Cleifion, Rhesymu Diagnostig, Gwneud Penderfyniadau ar y Cyd a defnyddio Therapiwteg.<br><br>Dylai'r Ymarferydd Presgripsiynu Dynodedig (neu feddyg / presgripsiynydd anfeddygol arall â chymwysterau addas) adolygu a llofnodi'r cofnod | Dyddiad adolygu a llofnodi'r cofnod: |

| | |
|---|---|
| *Rhowch fanylion yr unigolyn sy'n adolygu'r cofnod os nad yw'n Ymarferydd Presgripsiynu Dynodedig:* | |
| Cofnodi unrhyw ddigwyddiadau critigol a thrafod gyda'r Ymarferydd Presgripsiynu Dynodedig/Nyrs Arweiniol/Rheolwr Llinell/Pennaeth Adran | Dyddiadau unrhyw drafodaethau am ddigwyddiadau critigol: |
| Mynychu neu gymryd rhan mewn digwyddiad datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol sy'n gysylltiedig â phresgripsiynu, er enghraifft cyfarfod addysgol neu ddigwyddiad hyfforddi amlddisgyblaethol, adolygiad gan gymheiriaid, adolygiad yn seiliedig ar achosion ac ati. | Manylion y datblygiad proffesiynol parhaus a gynhaliwyd:<br><br>Dyddiad(au): |

**Cam 8: Cymeradwyo llwybr – ar ddiwedd mis 3 yn dilyn cofrestru presgripsiynydd:**

Dri mis ar ôl i chi gofrestru fel presgripsiynydd, cwblhewch y camau canlynol:

- Asesu'ch hun yn erbyn Fframwaith Cymhwysedd yr RPS ar gyfer pob Presgripsiynydd
- Dri mis ar ôl cofrestru fel presgripsiynydd, cyfarfod â'ch Nyrs Arweiniol / Rheolwr Llinell / Rheolwr er mwyn cwblhau'r canlynol:
    - cadarnhau bod y llwybr ymsefydlu wedi'i gwblhau
    - sicrhau bod unrhyw anghenion datblygu neu gymorth pellach wedi'u nodi

| | |
|---|---|
| Dyddiad y cyfarfod adolygu | |
| A gyflawnwyd holl elfennau perthnasol y llwybr?<br><br>**Os NADDO**:<br>Amlinellwch gynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd sydd heb eu cwblhau eto. Dylech gynnwys amserlenni ac adolygiadau cynnydd pellach a threfnu cyfarfodydd goruchwylio presgripsiynu ychwanegol fel y bo'n briodol | DO / NADDO |

| | |
|---|---|
| **Os DO**:<br>Anghenion dysgu a/neu ddatblygu yn y dyfodol wedi'u nodi, a'r camau gweithredu sy’n ofynnol i fynd i'r afael â nhw | |
| Llofnod y presgripsiynydd | |
| Llofnod y Nyrs Arweiniol / Rheolwr Llinell / Rheolwr* | |

* *Ar gyfer presgripsiynwyr anfeddygol hunangyflogedig, gall y llwybr ymsefydlu gael ei gymeradwyo gan yr Ymarferydd Presgripsiynu Dynodedig / Meddyg / Presgripsiynydd Anfeddygol sy'n goruchwylio ymarfer presgripsiynu yn ystod y cyfnod ymsefydlu ar ôl cymhwyso*

Ar ôl i'r llwybr ymsefydlu hwn gael ei lofnodi, bydd angen lanlwytho copi i'ch ffeil bersonol (neu gyfwerth).

# ATODIAD 4

## Datganiad Cwmpas Ymarfer Presgripsiynu Anfeddygol

**Nodiadau cwblhau:**

1. Er mwyn iddynt gael eu hychwanegu at Gofrestr Presgripsiynwyr Anfeddygol BIP Caerdydd a'r Fro, rhaid i bresgripsiynwyr anfeddygol gyflwyno 'Datganiad Cwmpas Ymarfer' wedi'i lofnodi i'r Fferyllfa.   Felly, mae'n rhaid i 'Ddatganiad Cwmpas Ymarfer' gael ei gwblhau gan:
    - ♣ Bresgripsiynwyr anfeddygol sydd newydd gymhwyso
    - ♣ Presgripsiynwyr anfeddygol sydd newydd gael eu cyflogi gan BIP Caerdydd a'r Fro neu sy'n darparu gwasanaeth wedi'i gomisiynu ar gyfer BIP Caerdydd a'r Fro

2. Er mwyn aros ar gofrestr presgripsiynwyr anfeddygol y BIP, mae'n rhaid i bresgripsiynwyr wedyn:

    - ♣ Gyflwyno Datganiad Cwmpas Ymarfer wedi'i adolygu **unwaith bob 3 blynedd** o leiaf. Rhaid i'r presgripsiynydd gwblhau Datganiad Cwmpas Ymarfer newydd, hyd yn oed os nad yw wedi newid, bob 3 blynedd.

    **A**

    - ♣ Chyflwyno Datganiad Cwmpas Ymarfer wedi'i ddiweddaru ar unwaith pryd bynnag y bydd **unrhyw** agwedd ar y Datganiad Cwmpas Ymarfer yn newid e.e. ehangu cwmpas ymarfer, newidiadau i'r maes clinigol, yr ystod o feddyginiaethau, rôl ac ati.

3. Er mwyn sicrhau eich bod yn defnyddio'r fersiwn ddiweddaraf, rhaid cyrchu'r Datganiad Cwmpas Ymarfer trwy SharePoint neu safle Rhyngrwyd BIP Caerdydd a'r Fro bob tro y bydd angen ei gwblhau: Dolen Sharepoint: Dogfennau Presgripsiynu Anfeddygol. Lawrlwythwch waith papur Cwmpas Ymarfer y BIP a'i gwblhau fel dogfen electronig.

4. **Rhaid** i'r Datganiad Cwmpas Ymarfer gael ei gwblhau gan y presgripsiynydd anfeddygol ar y cyd â'i reolwr llinell. Rhaid i'r fersiwn derfynol gael ei llofnodi gan **bob** llofnodwr gofynnol - bydd naill ai llofnodion gwlyb neu drywyddau e-bost wedi'u dilysu (yn lle llofnodion) yn cael eu derbyn. Rhaid i'r rheolwr llinell gadw copi ar gyfer ffeil bersonol y presgripsiynydd a rhaid i'r presgripsiynydd gadw copi ar gyfer ei bortffolio presgripsiynu.

5. Rhaid i'r presgripsiynydd ddychwelyd y datganiad wedi'i lofnodi ar unwaith i: **Adran Fferylliaeth Ysbyty Athrofaol Cymru -** Nmpadminpharmacy.Cav@wales.nhs.uk ac aros am gadarnhad e-bost bod y Cwmpas Ymarfer wedi cael ei dderbyn a bod manylion y presgripsiynydd wedi cael eu hychwanegu at gofrestr presgripsiynwyr anfeddygol y BIP neu fod ei gofnod wedi cael ei ddiweddaru.

6. Cyfrifoldeb y rheolwr llinell yw sicrhau bod y Fferyllfa yn cael gwybod ar unwaith, trwy'r cyfeiriad e-bost uchod, os nad yw'r presgripsiynydd yn gweithio (neu'n darparu gwasanaethau wedi'u comisiynu) i'r adran neu'r sefydliad mwyach.

7. Ar gyfer presgripsiynwyr anfeddygol sy'n hunangyflogedig ac yn darparu gwasanaethau wedi'u comisiynu, gall yr unigolyn a enwir yn y ddogfen hon sy'n darparu goruchwyliaeth ar ôl cymhwyso gwblhau'r adrannau 'Rheolwr Llinell'.

**NODER: Bydd Presgripsiynydd Anfeddygol yn gymwys i bresgripsiynu (o ran atebolrwydd) dim ond os yw ar Gofrestr Presgripsiynwyr Anfeddygol y BIP ac os yw wedi cyflwyno Datganiad Cwmpas Ymarfer cyfredol sy'n adlewyrchu ei rôl bresgripsiynu gyfredol yn gywir. Bydd angen i'r Presgripsiynydd Anfeddygol hefyd ddarparu datganiad blynyddol o gymhwysedd parhaus i bresgripsiynu a thystiolaeth ei fod wedi cael arfarniad presgripsiynu bob 3 blynedd.**

**Datganiad Cwmpas Ymarfer Presgripsiynu Anfeddygol**

**Manylion y presgripsiynydd:**

| | |
|---|---|
| Enw'r Presgripsiynydd Anfeddygol: | |
| Cyfeiriad e-bost y Presgripsiynydd Anfeddygol: (*defnyddiwch gyfeiriad e-bost gwaith os gwelwch yn dda*) | |
| Corff rheoleiddio: | |
| Rhif cofrestru / aelodaeth: | |
| Wedi cofrestru fel presgripsiynydd gyda chorff rheoleiddio? (*darparwch brawf o gofrestru i'ch rheolwr llinell*) | ❑ Ie<br>❑ Wedi'i ddilysu gan y Rheolwr Llinell |
| Presgripsiynydd Annibynnol neu Atodol? | |
| Rhif cyflogai (os yw'n cael ei gyflogi gan y BIP): | |
| Teitl Swydd: | |
| Cyfarwyddiaeth (os yw'n berthnasol): | |
| Bwrdd Clinigol (os yw'n berthnasol): | |
| Adran / Maes Clinigol / Clwstwr Gofal Sylfaenol (os yw'n cael ei gyflogi gan y BIP)<br>*NEU*<br>Contractwr annibynnol (os nad yw'n cael ei gyflogi gan y BIP) | |

**Cymhwyster presgripsiynu anfeddygol:**

| | |
|---|---|
| Sefydliad Addysg Uwch: | |
| Dyddiad cymhwyso: | |

| | |
|---|---|
| Os yw'n sefydliad addysg uwch nad yw yng Nghymru – rhaid i'r Rheolwr Llinell gadarnhau bod y cymhwyster yn bodloni'r nifer ofynnol o gredydau / lefel addysgol (*cysylltwch â'r Uwch Nyrs ar gyfer Addysg Nyrsio neu'r Prif Fferyllydd Hyfforddiant a Datblygiad i gael cyngor*) | Ticiwch fel y bo'n briodol:<br>❑ Ddim yn berthnasol<br>❑ Mae'r rheolwr llinell wedi cadarnhau bod y cymhwyster yn bodloni gofynion y BIP |

**Cwmpas yr Ymarfer:**

| | | |
|---|---|---|
| **Maes ymarfer trosfwaol:** (Ticiwch) | ❑ **Oedolion** | ❑ **Plant** |
| **Crynodeb o'r maes ymarfer:** (uchafswm o 5 gair e.e. iechyd meddwl oedolion, llawdriniaeth bediatrig, rhiwmatoleg oedolion, meddygaeth frys oedolion ac ati) | | |
| **Maes ymarfer:** Disgrifiwch y cleifion yr ydych yn gofalu amdanynt ac y byddwch yn presgripsiynu ar eu cyfer; rhowch gymaint o fanylion â phosibl er mwyn disgrifio'ch rôl bresgripsiynu'n gywir ac yn llawn, gan gynnwys manylion am gyflyrau clinigol, rheolaeth acíwt o gymharu â chronig, ac ati. *(parhewch ar ddalen atodedig ar wahân os bydd angen)* | | |
| Presgripsiynu **Annibynnol** neu **Atodol** neu'r ddau? | | |
| **A fyddwch chi'n presgripsiynu ar gyfer cleifion mewnol?** *(mae hyn yn cynnwys ysgrifennu presgripsiynau rhyddhau a phob math o bresgripsiynu electronig)* | ❑ Ie<br>❑ Na | |
| **A fyddwch chi'n presgripsiynu ar gyfer cleifion allanol?** Os felly, bydd angen i chi gofrestru gyda COPPS trwy'r Pecyn System Wybodaeth Glinigol (cymru.gig.uk) | ❑ Ie<br>❑ Na | |

| | |
|---|---|
| (*eglurwch eich bod yn Bresgripsiynydd Anfeddygol wrth gofrestru gyda COPPS*) | |
| **A fyddwch chi'n presgripsiynu mewn gofal sylfaenol neu gymunedol?** Os felly, bydd angen i chi gofrestru gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Gofal Sylfaenol | ❑ Ie<br>❑ Na |
| **Ydych chi wedi trefnu mynediad at Borth Clinigol Cymru (WCP)?** Os na, siaradwch â'ch Rheolwr Llinell. | |
| **Goruchwyliaeth ar ôl cymhwyso:** Manylion yr unigolyn a fydd yn eich goruchwylio ar ôl cymhwyso (derbynnir trywydd e-bost yn lle llofnod gwlyb) | Enw:<br>Teitl Swydd/Cymhwyster:<br>Llofnod a Dyddiad: |

**Awdurdodiad:**
(pan fydd angen, derbynnir trywydd(au) e-bost yn lle llofnod(ion) gwlyb)

| | |
|---|---|
| Mae'r manylion uchod wedi cael eu trafod a'u cytuno.<br>**DS:** Deëllir mai cyfrifoldeb y **presgripsiynydd**, ar ôl trafod gyda'r rheolwr llinell, yw sicrhau bod cymwyseddau presgripsiynu yn cael eu cynnal a'u bod yn bodloni gofynion y BIP / Llywodraeth Cymru, bod datganiad blynyddol o gymhwysedd parhaus i bresgripsiynu yn cael ei gyflwyno i'r Fferyllfa a bod arfarniad presgripsiynu yn cael ei gynnal bob 3 blynedd. | |
| Enw'r presgripsiynydd: | |
| Llofnod y presgripsiynydd: | |
| Dyddiad: | |
| **Datganiad y Rheolwr Llinell**: Rwyf wedi gwirio bod gan ddeiliad y swydd y cymhwyster presgripsiynu angenrheidiol, ei fod wedi'i gofrestru gyda'i gorff rheoleiddio fel presgripsiynydd, a bod ei rôl fel presgripsiynydd anfeddygol yn angenrheidiol ar y gwasanaeth yn y maes clinigol penodol. Cadarnhaf fod y Cwmpas Ymarfer hwn yn disgrifio ei rôl bresgripsiynu yn y sefydliad yn ddigonol a bod unigolyn priodol wedi cytuno i ddarparu goruchwyliaeth ar ôl cymhwyso. | |
| Enw'r Rheolwr Llinell: | |
| Dynodiad y Rheolwr Llinell: (*DS: ar gyfer staff nyrsio, bydd angen i hwn gael ei gydlofnodi gan y Nyrs Arweiniol os nad yw'r Rheolwr Llinell mewn rôl gyfatebol neu rôl Nyrs Arweiniol*) | |
| Llofnod y Rheolwr Llinell: | |
| Llofnod y Nyrs Arweiniol (*os oes angen – gweler uchod*): | |

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | |

| | |
|---|---|
| Datganiad Cwmpas Ymarfer wedi'i adolygu gan y llofnodwr priodol (yn ôl grŵp proffesiynol) a'i gymeradwyo i'w gynnwys ar Gofrestr Presgripsiynwyr Anfeddygol y BIP.<br>(*Llofnodwyr: Cyfarwyddwr Nyrsio'r Bwrdd Clinigol (neu Ddirprwy) / Fferyllwyr Arweiniol ar gyfer Byrddau Clinigol / Prif Fferyllydd / Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd (neu Ddirprwy) / Cyfarwyddwr Meddygol (neu Ddirprwy)* | |
| Adolygwyd a chymeradwywyd gan - enw: | |
| Teitl swydd: | |
| Llofnod: | |
| Dyddiad: | |

**Pan fydd wedi'i gwblhau, anfonwch gopi o'r gwaith papur hwn at [Nmpadminpharmacy.Cav@wales.nhs.uk](mailto:Nmpadminpharmacy.Cav@wales.nhs.uk)**

# ATODIAD 5

**Presgripsiynu Anfeddygol - Datganiad Blynyddol o Gymhwysedd Parhaus i Bresgripsiynu**

Er mwyn bodloni gofynion y BIP a Llywodraeth Cymru, rhaid i bob presgripsiynydd anfeddygol gwblhau'r datganiad hwn yn flynyddol gyda'u rheolwyr llinell fel rhan o'u Harfarniad Seiliedig ar Werthoedd. Ar gyfer presgripsiynwyr anfeddygol hunangyflogedig, gellir ei gwblhau gyda'r unigolyn a enwyd sy'n darparu goruchwyliaeth ar ôl cymhwyso (neu bresgripsiynydd arall sydd â chymwysterau a phrofiad addas). Rhaid cyflwyno copi wedi'i lofnodi o ddatganiad blynyddol o gymhwysedd parhaus i bresgripsiynu i'r Fferyllfa trwy Nmpadminpharmacy.Cav@wales.nhs.uk.

Ar gyfer staff a gyflogir gan y BIP, os ydych yn bresgripsiynydd anfeddygol ac nid ydych yn defnyddio'ch cymhwyster presgripsiynu yn eich rôl bresennol, cwblhewch Adrannau 1 a 2 bob blwyddyn a dychwelwch y datganiad hwn i'r Fferyllfa trwy Nmpadminpharmacy.Cav@wales.nhs.uk.

**Adran 1: Manylion y presgripsiynydd:**

| | |
|---|---|
| Enw'r Presgripsiynydd Anfeddygol: | Teitl swydd: |
| Proffesiwn: | Adran neu Faes Clinigol (*os yw'r presgripsiynydd anfeddygol yn cael ei gyflogi gan y BIP*): |
| Cyfarwyddiaeth (*os yw'r presgripsiynydd anfeddygol yn cael ei gyflogi gan y BIP*): | Bwrdd Clinigol (*os yw'r presgripsiynydd anfeddygol yn cael ei gyflogi gan y BIP*): |
| Meddygfa neu gontractwr annibynnol arall (*os yw'n berthnasol*): | Swydd / cymhwyster yr unigolyn a enwyd ar y Cwmpas Ymarfer sy'n darparu goruchwyliaeth ar ôl cymhwyso: |
| Rhif Cofrestru Proffesiynol: ..........................................<br>Cofrestriad fel Presgripsiynydd gyda Chorff Rheoleiddio wedi'i gadarnhau / gwirio gan y Rheolwr Llinell (*neu unigolyn arall sy'n llofnodi Datganiad Blynyddol o Gymhwysedd i Bresgripsiynu'r presgripsiynydd anfeddygol*):<br>Enw (*a swydd os nad yw'n Rheolwr Llinell*): ..................................................................<br>Llofnod y Rheolwr Llinell: ………………………………. Dyddiad: …………….. | |
| Mae'r presgripsiynydd anfeddygol wedi'i gynnwys ar Gofrestr Presgripsiynwyr Anfeddygol y BIP – wedi'i gadarnhau gan:<br>Enw (*a swydd os nad yw'n Rheolwr Llinell*): | Cwmpas Ymarfer wedi'i gyflwyno i'r Fferyllfa o fewn y 3 blynedd diwethaf:<br>☐ Ie<br>☐ Ddim yn berthnasol (nid yw'n bresgripsiynydd gweithredol) |

| | |
|---|---|
| .................................................................. . Llofnod y Rheolwr Llinell: ………............. Dyddiad: …………….. | ☐ Na (*os >3 blynedd, bydd angen i chi gyflwyno copi llofnodedig wedi'i ddiweddaru/wedi'i ddiwygio o'ch datganiad Cwmpas Ymarfer ar frys*) |

**DS Cyfrifoldeb y Presgripsiynydd Anfeddygol yw cwblhau datganiad Cwmpas Ymarfer newydd ar unwaith os bydd unrhyw newidiadau'n digwydd ar unrhyw adeg e.e. newid rôl neu faes clinigol**

**Adran 2: Adolygiad o ymarfer presgripsiynu:**

Ydych chi'n defnyddio eich cymhwyster presgripsiynu anfeddygol ar hyn o bryd? Ydw / Nac ydw (*dilëwch fel y bo'n briodol*)

**Os ydych**: cwblhewch Adrannau 3, 4 a 5 isod.

**Os nad ydych**: llofnodwch y datganiad canlynol ac anfonwch gopi o'r gwaith papur hwn at Nmpadminpharmacy.Cav@wales.nhs.uk – diweddarwch y datganiad hwn **yn flynyddol** os nad ydych yn presgripsiynu; ni fydd angen cymryd unrhyw gamau eraill oni bai bod statws eich gweithgarwch presgripsiynu'n newid.

> **Datganiad: Rwy'n cadarnhau nad wyf yn defnyddio fy nghymhwyster presgripsiynu ar hyn o bryd o fewn fy rôl yn y BIP**
>
> Llofnod: ....................................................................

**Adran 3: Tystiolaeth o gymhwysedd presgripsiynu (cwblhewch yr adran hon os ydych yn bresgripsiynydd gweithredol yn unig):**

| **Tystiolaeth ofynnol o gymhwysedd (rhaid i bob presgripsiynydd anfeddygol sy'n defnyddio eu cymhwyster presgripsiynu fodloni'r safonau canlynol ar gyfer sicrhau cymhwysedd)** | **Llofnod y presgripsiynydd anfeddygol** (*mae llofnodi isod yn cadarnhau bod y dystiolaeth hon yn bodoli ac ar gael i'w hadolygu*) |
|---|---|
| Mae gennyf bortffolio presgripsiynu sy'n cynnwys yr **holl** gofnodion tystiolaeth canlynol sy'n dangos cymhwysedd parhaus i bresgripsiynu (gweler isod) | |
| Mae fy mhortffolio presgripsiynu yn cynnwys tystiolaeth fy mod wedi cynnal hunanasesiad o'm cymhwysedd presgripsiynu o fewn y 12 mis diwethaf gan ddefnyddio Fframwaith Cymhwysedd yr RPS ar gyfer Pob Presgripsiynydd. | |
| Mae fy mhortffolio presgripsiynu yn cynnwys y dystiolaeth ganlynol o gymhwysedd parhaus i bresgripsiynu:<br>• 1 Adolygiad gan Gymheiriaid (e.e. adolygiadau seiliedig ar achosion, Grwpiau Cymheiriaid Presgripsiynu Anfeddygol, | |

| | |
|---|---|
| Goruchwyliaeth glinigol, Trafod ymarfer presgripsiynu, Dadansoddi achosion ar hap) | |
| Mae fy mhortffolio presgripsiynu yn cynnwys y dystiolaeth ganlynol o gymhwysedd parhaus i bresgripsiynu:<br>• 2 gofnod clinigol (e.e. Datblygiad proffesiynol parhaus wedi'i gynllunio neu heb ei gynllunio, Adolygiadau achosion) | |
| Mae fy mhortffolio presgripsiynu yn cynnwys y dystiolaeth ganlynol o gymhwysedd parhaus i bresgripsiynu:<br>• 2 gofnod o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (e.e. Datblygiad proffesiynol parhaus wedi'i gynllunio neu heb ei gynllunio, Archwiliad, Profiad y claf / adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth) | |
| Mae'r holl dystiolaeth yn fy mhortffolio presgripsiynu wedi cael ei thrafod gyda'r unigolyn a enwyd yn fy Nghwmpas Ymarfer Presgripsiynu sy'n darparu goruchwyliaeth ar ôl cymhwyso (neu bresgripsiynydd cymwys a phrofiadol arall) | |

**Adran 4: Arfarniad Presgripsiynu (cwblhewch yr adran hon os ydych yn bresgripsiynydd gweithredol yn unig):**

Rhaid i bob presgripsiynydd anfeddygol sy'n defnyddio eu cymhwyster presgripsiynu gael arfarniad presgripsiynu gydag unigolyn â chymwysterau addas bob 3 blynedd – gellir dod o hyd i arweiniad pellach ar yr arfarniad hwn yn Safonau AaGIC ar gyfer Sicrhau Cymhwysedd Presgripsiynwyr Annibynnol ac Atodol yng Nghymru.

Dyddiad yr Arfarniad Presgripsiynu diweddaraf:
……………………………………………………………………………

*Yn ystod camau gweithredu cychwynnol y broses arfarnu 3 blynedd newydd (tan fis Mawrth 2027), bydd presgripsiynwyr anfeddygol yn gallu cwblhau eu 'Datganiad Blynyddol o Gymhwysedd Parhaus i Bresgripsiynu' (Atodiad 5) a nodi nad yw Arfarniad Presgripsiynu llawn wedi'i gwblhau eto sy'n bodloni holl ofynion Safonau Sicrhau Cymhwysedd newydd AaGIC. Fodd bynnag, rhaid i bob presgripsiynydd anfeddygol a gyflogir gan y BIP fod wedi trafod eu hymarfer presgripsiynu presennol yn ystod arfarniad blynyddol gyda'u rheolwr llinell (gweler 'Adran 5: Datganiadau Proffesiynol' isod).*

**Adran 5: Datganiadau Proffesiynol (cwblhewch yr adran hon os ydych yn bresgripsiynydd gweithredol yn unig):**

**Cadarnhaf:**

1. Fy mod wedi cofrestru gyda fy Nghorff Rheoleiddio, a bod gennyf anodiad presgripsiynu wedi'i gynnwys yn fy nghofnod ar y gofrestr.
2. Bod fy Natganiad Cwmpas Ymarfer cyfredol yn disgrifio'n gywir ac yn gyflawn sut rwyf yn defnyddio fy nghymhwyster presgripsiynu.

3. Fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am arferion gorau o fewn fy nghwmpas ymarfer yn rheolaidd a'm bod wedi cynnal hunanasesiad o'm cymhwysedd presgripsiynu o fewn y 12 mis diwethaf, y gallaf ddarparu tystiolaeth ohono ar unwaith ar gais.
4. Fy mod wedi cynnal portffolio presgripsiynu sy'n cynnwys yr holl dystiolaeth ofynnol uchod o gymhwysedd i bresgripsiynu (yn Adran 3), ac y gallaf ddarparu tystiolaeth ohono ar unwaith ar gais.
5. Fy mod wedi trafod fy ymarfer presgripsiynu presennol yn ystod arfarniad blynyddol gyda fy rheolwr llinell (*yn berthnasol i bresgripsiynwyr anfeddygol sy'n cael eu cyflogi gan y BIP yn unig*).
6. Fy mod wedi / Nad wyf wedi (*dilëer fel y bo'n berthnasol*) cynnal arfarniad presgripsiynu llawn gydag unigolyn â chymwysterau addas o fewn y 3 blynedd diwethaf sy'n bodloni gofynion safonau sicrhau cymhwysedd presgripsiynwyr anfeddygol AaGIC.
7. Byddaf yn anfon copi wedi'i lofnodi o'r 'Datganiad Blynyddol o Gymhwysedd Parhaus i Bresgripsiynu' hwn gan bresgripsiynydd anfeddygol at (Nmpadminpharmacy.Cav@wales.nhs.uk) ac yn cadw un copi yn fy mhortffolio presgripsiynu.

| Llofnod y Presgripsiynydd Anfeddygol: | Dyddiad: |
|---|---|
| | |

## Adran 6: Cadarnhad rheolwr llinell*:

**Cadarnhaf:**

1. Fy mod wedi adolygu'r datganiadau proffesiynol uchod sydd wedi'u llofnodi gan y presgripsiynydd anfeddygol a enwyd a'm bod yn cefnogi'r unigolyn hwn i barhau i bresgripsiynu yn ei rôl bresennol.
2. Fy mod wedi / Nad wyf wedi (*dilëer fel y bo'n berthnasol*) adolygu ei bortffolio presgripsiynu.
3. Byddaf yn gosod copi wedi'i lofnodi o'r datganiad hwn ar ffeil bersonol yr unigolyn (*yn berthnasol i bresgripsiynwyr anfeddygol a gyflogir gan y BIP yn unig*).

| Enw'r Rheolwr Llinell*: | Llofnod y Rheolwr Llinell*: | Dyddiad: |
|---|---|---|
| | | |

** Ar gyfer contractwyr annibynnol sy'n hunangyflogedig, fe all hwn gael ei lofnodi gan yr unigolyn a enwyd ar y Cwmpas Ymarfer Presgripsiynu sy'n darparu goruchwyliaeth ar ôl cymhwyso (neu bresgripsiynydd cymwys a phrofiadol arall)*

**Pan fydd wedi'i gwblhau, anfonwch gopi o'r gwaith papur hwn at**

**Nmpadminpharmacy.Cav@wales.nhs.uk**